

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

Mr C. B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Rhif ffôn (01443) 424098 – J. Nicholls

Bydd cyfarfod o'r **PANEL YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD / YMDDISWYDDO** yn cael ei gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach (**Bloc F**) ddydd **Mercher, 21 Mehefin 2017** am 2.00pm.

AGENDA

Tudalennau

1. Datgan Buddiant

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Côd Ymddygiad (gan gynnwys datganiadau dan orchmynion chwip).

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. Ethol Cadeirydd y Panel ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017/2018.

3. Penodi Is-gadeirydd y Panel ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017/2018.

4. Cofnodion

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2017. **1-4**

5. Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail

y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

6. Ceisiadau Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo

Ystyried adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig (i ddilyn)

7. Trafod unrhyw faterion sydd, ym marn y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cylchrediad:

Aelodau o'r Panel:

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol (Mrs) J. Bonetto, (Mrs) S. Rees, (Mrs) W. Treeby, M. Weaver ac (Mrs) M. Webber.

15 Mehefin 2017